Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2026 Rhif 78 (C. 7)

# Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026

*Gwnaed* *10 Mawrth 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2026 No. 78 (C. 7)

# The Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (Commencement No. 1 and Transitional and Transitory Provision) Order 2026

*Made* *10 March 2026*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 78 (C. 7)

# Y GYMRAEG

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r Gorchymyn Cychwyn cyntaf sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc 2) ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn yr erthygl honno i rym ar 1 Ebrill 2026.

Mae erthygl 3 yn dwyn adran 28(1)(b) o'r Ddeddf i rym ar 1 Awst 2027. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dyddiad y daw'r ddarpariaeth sy'n sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i rym o dan adran 56(3) o'r Ddeddf.

Mae erthygl 4 yn dwyn Rhan 3 o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026 at ddiben dehongli'r categorïau iaith "Prif Iaith - Cymraeg", "Dwy Iaith" a "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" yn adran 37(e) o'r Ddeddf.

Mae erthygl 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol a darfodol yn ymwneud ag adran 24 o'r Ddeddf, a ddygir i rym gan erthygl 2. Mae'n darparu bod cyfeiriadau at "strategaeth y Gymraeg" yn adran 24, hyd nes y daw adran 1 o'r Ddeddf i rym yn llawn, i'w darllen fel cyfeiriadau at fersiwn ddrafft o strategaeth y Gymraeg sy'n cynnwys y materion a nodir yn adran 1(1) o'r Ddeddf ac a lunnir gan Weinidogion Cymru at ddiben ymgynghori.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 78 (C. 7)

# Y GYMRAEG

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 56(4) a (5) o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026—

(a) adran 3(1) i (3) (cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg);

(b) adran 4 (adolygu safonau'r Gymraeg);

(c) adran 6 (Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg);

(d) adran 7 (cyhoeddi ac adolygu'r Cod);

(e) adran 24 (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg);

(f) adran 25 (Y Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach ar y gweithlu addysg);

(g) adran 26(2)(b) (gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol);

(h) adran 27 (Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach am gynnwys, adolygu a diwygio);

(i) adran 28(1)(a) ac (c) i (g), (2) a (3) (ymgynghori a chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol);

(j) adran 37 (dehongli).

(**1**) 2025 dsc 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y ddarpariaeth sy’n dod i rym ar 1 Awst 2027**

**3.** Daw adran 28(1)(b) (ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol â’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol) o’r Ddeddf i rym ar 1 Awst 2027.

**Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 1 Ebrill 2026 i’r graddau a bennir**

**4.** Daw Rhan 3 (addysg Gymraeg) o’r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026 at ddibenion adran 37(e) o’r Ddeddf yn unig (ond nid fel bod y dyletswyddau o dan Ran 3 yn cael eu dwyn i rym).

**Darpariaeth drosiannol a darfodol yn ymwneud ag adran 24 o’r Ddeddf (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg)**

**5.**—(1) Hyd nes y daw adran 1 o’r Ddeddf i rym yn llawn, mae cyfeiriadau at “strategaeth y Gymraeg” yn adran 24 o’r Ddeddf i’w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at fersiwn ddrafft o strategaeth y Gymraeg sy’n cynnwys y materion a nodir yn adran 1(1) o’r Ddeddf ac a lunnir gan Weinidogion Cymru at ddiben ymgynghori.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr “strategaeth y Gymraeg” yw’r strategaeth ar hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
10 Mawrth 2026

(**2**) 2006 p. 32.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 78 (C. 7)

# WELSH LANGUAGE

# EDUCATION, WALES

## The Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (Commencement No. 1 and Transitional and Transitory Provision) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This is the first Commencement Order made by the Welsh Ministers under the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (asc 2) ("the Act").

Article 2 brings the provisions of the Act specified in that article into force on 1 April 2026.

Article 3 brings section 28(1)(b) of the Act into force on 1 August 2027. This coincides with the date on which the provision establishing the National Institute for Learning Welsh comes into force under section 56(3) of the Act.

Article 4 brings Part 3 of the Act into force on 1 April 2026 for the purpose of the interpretation of "Primarily Welsh Language", "Dual Language" and "Primarily English Language, partly Welsh" language categories in section 37(e) of the Act.

Article 5 makes a transitional and transitory provision relating to section 24 of the Act, which is brought into force by article 2. It provides that, until section 1 of the Act comes fully into force, references to "the Welsh language strategy" in section 24 are to be read as references to a draft Welsh language strategy containing the matters set out in section 1(1) of the Act and prepared by the Welsh Ministers for the purpose of consultation.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 78 (C. 7)

## WELSH LANGUAGE

## EDUCATION, WALES

## The Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (Commencement No. 1 and Transitional and Transitory Provision) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 56(4) and (5) of the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025(**1**), make the following Order.

### Title and interpretation

**1.**—(1) The title of this Order is the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (Commencement No. 1 and Transitional and Transitory Provision) Order 2026.

(2) In this Order, "the Act" means the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025.

### Provisions coming into force on 1 April 2026

**2.** The following provisions of the Act come into force on 1 April 2026—

(a) section 3(1) to (3) (calculating the number of Welsh speakers);

(b) section 4 (reviewing the Welsh language standards);

(c) section 6 (Code to describe Welsh language ability);

(d) section 7 (publishing and reviewing the Code);

(e) section 24 (National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh);

(f) section 25 (National Framework: further provision on the education workforce);

(g) section 26(2)(b) (implementing the National Framework);

(h) section 27 (National Framework: further provision about content, review and amendment);

(i) section 28(1)(a) and (c) to (g), (2) and (3) (consultation and publication of the National Framework);

(j) section 37 (interpretation).

(**1**) 2025 asc 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Provision coming into force on 1 August 2027**

**3.** Section 28(1)(b) (consultation on the National Framework with the National Institute for Learning Welsh) of the Act comes into force on 1 August 2027.

**Provisions coming into force on 1 April 2026 to the extent specified**

**4.** Part 3 (Welsh language education) of the Act comes into force on the 1 April 2026 for the purposes only of section 37(e) of the Act (but not so as to bring the duties under Part 3 into force).

**Transitional and transitory provision relating to section 24 of the Act (National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh)**

**5.**—(1) Until section 1 of the Act comes fully into force, references to “the Welsh language strategy” in section 24 of the Act are to be read as if they were references to a draft Welsh language strategy containing the matters set out in section 1(1) of the Act and prepared by the Welsh Ministers for the purpose of consultation.

(2) In this article, “Welsh language strategy” means the strategy on promoting and facilitating the use of Welsh adopted by the Welsh Ministers in accordance with section 78 of the Government of Wales Act 2006(**2**).

*Mark Drakeford*
Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language, one of the Welsh Ministers
10 March 2026

(**2**) 2006 c. 32.